Urdd Gobaith Cymru

# Swydd Ddisgrifiad

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y swydd :** | Swyddog Marchnata a Chyfathrebu Eisteddfod yr Urdd | **Lleoliad :** | Hyblyg – un o brif swyddfeydd yr Urdd (gan gynnwys Caerdydd, Glan-llyn, Bangor a Caerfyrddin) |
| **Adran :** | Eisteddfod a'r Celfyddydau | **Cyflog :** | Gweithredol 5: £31,745 - £35,365 y flwyddyn |
| **Oriau Gwaith :** | Llawn amser (35 awr yr wythnos) | **Cytundeb :** | Parhaol |
| **Yn adrodd i :** | Cyfarwyddwr | **Rheolaeth Llinell :** | Dim |

**Prif bwrpas y swydd:**

Mae Adran y Celfyddydau'r Urdd yn cynnal Eisteddfod yr Urdd, yn ogystal â rhedeg Cwmni Theatr yr Urdd, a chynnal nifer o brosiectau cymryd rhan i ieuenctid Cymru dros y flwyddyn. Ein prif nod yw cynnig Llwyfan i Bawb, drwy ddarparu profiadau a chyfleoedd celfyddydol o ansawdd uchel drwy'r Gymraeg i blant a phobl ifanc o bob cefndir yng Nghymru a thu hwnt.

Rydym yn chwilio am **Swyddog Marchnata a Chyfathrebu** trefnus, creadigol a strategol, gyda phrofiad o farchnata digidol a chyfathrebu cyhoeddus. Bydd y Swyddog yn gyfrifol am arwain ar ddatblygu a hyrwyddo brand Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru a phrosiectau eraill yr adran, drwy greu cynnwys apelgar, perthnasol, cyfoes ac effeithiol sy'n tyfu ac yn amrywio cynulleidfaoedd yr Urdd.

Bydd gan yr unigolyn gyfrifoldeb dros reoli a datblygu platfformau digidol, yn ogystal ag arwain ar ymgyrchoedd marchnata a chyfathrebu i hyrwyddo'r holl waith celfyddydol drwy gydol y flwyddyn. Mae cydweithio â'r adran gyfathrebu a phartneriaid allanol yn rhan allweddol o'r swydd.

---

**Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:**

*Yn eich ffurflen gais, nodwch eich profiad ac esiamplau sy'n dangos tystiolaeth o'r gallu i wneud y pwyntiau isod*

1. Arwain ar holl ymgyrchoedd marchnata, cyfathrebu a chynnwys digidol Eisteddfod yr Urdd a'r Cwmni Theatr, gan sicrhau negeseuon cyson, ymgysylltu effeithiol a thwf cynulleidfaoedd ar-lein ac wyneb yn wyneb.

2. Datblygu amcanion a dulliau mesuradwy i fesur effaith ein hymgysylltu drwy brosiectau, gan weithio'n agos gyda'r Adran Gyfathrebu ar y strategaeth, yr amcanion a'r gwerthusiad, ac adrodd yn ôl i'r Cyfarwyddwr.

3. Rheoli cyllideb marchnata a chyfathrebu'r adran, gan sicrhau gwerth am arian a

blaenoriaethu gweithgareddau sy'n cael yr effaith fwyaf.

4. Cynhyrchu, chomisiynu a golygu cynnwys marchnata, digidol a chyfathrebu sy'n adrodd stori Eisteddfod yr Urdd a Chwmni Theatr yr Urdd ac yn codi proffil y gwaith celfyddydol.
5. Arwain ar ymgyrchoedd gwerthiant tocynnau Eisteddfod yr Urdd a'r Cwmni Theatr.
6. Arwain ar brosesau digidol yr adran, gan sicrhau bod llwyfannau a systemau (gan gynnwys gwefan yr Urdd ac Ap yr Eisteddfod) yn cefnogi cyfathrebu effeithiol â chystadleuwyr a chynulleidfaoedd.
7. Cynghori, arwain a hyfforddi gwirfoddolwyr i sicrhau cynnwys apelgar a phwrpasol i'w gweithgareddau lleol.
8. Cydweithio gyda'r Rheolwr Nawdd i adnabod cyfleoedd a datblygu buddiannau digidol i noddwyr.
9. Cydweithio gyda'r Rheolwr Cyhoeddiadau a Chyfathrebu ar ddatganiadau i'r wasg a chyhoeddiadau cenedlaethol, gan arwain ar gyfathrebu lleol a chodi proffil digwyddiadau'r adran.
10. Cydweithio gyda Dylunydd yr Urdd a dylunwyr allanol i greu deunyddiau print ac hyrwyddo (e.e. Rhestr Testunau a Rhaglen yr Eisteddfod), sy'n adlewyrchu brand cryf ac unedig.
11. Cydweithio gyda staff yr adran i ymgorffori elfennau a chystadlaethau digidol Eisteddfod T i Faes yr Eisteddfod.
12. Creu a rheoli strategaeth marchnata a cyfryngau cymdeithasol Eisteddfod yr Urdd.
13. Monitro llwyddiant ein ymgyrchoedd a'n negeseuon gan baratoi adroddiadau misol i'r Cyfarwyddwr ac ar adegau i Fwrdd yr Eisteddfod a'r Prif Weithredwr.
14. Bod yn effro a blaengar i gyfleoedd PR, digwyddiadau cenedlaethol a thueddiadau cyfryngol i sicrhau fod Eisteddfod yr Urdd yn rhan o'r weithgaredd.
15. Ymateb i ddatblygiadau, llwyfannau a chyfleoedd newydd o fewn y byd digidol a chyfathrebu i sicrhau ein bod yn defnyddio'r cyfryngau mwyaf diweddar a pherthnasol.
16. Cyfrannu fel aelod o dîm at holl waith yr adran gan ddangos y gallu i fod yn hyblyg o ran y tasgau y gofynnir i'r swyddog ymdrin â hwy.
17. Cydweithio a chefnogi ymgyrchoedd marchnata canolog yr Urdd gyda'r Adran Gyfathrebu yn ôl y galw (e.e. teithiau rhyngwladol, gwersyll haf yr Urdd).

---

## Manyleb y person a'r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad

*Nodiadau i ymgeiswyr:*

- *I ymgeisio, mae'n rhaid llenwi'r ffurflen gais yn llawn, gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol i gael eich cynnwys ar y rhestr fer.*
- *Ar ôl y dyddiad cau, ni fydd yr hysbyseb swydd hon ar gael ar ein Gwefan, felly cofiwch gadw copi ar gyfer eich cofnodion.*

**Hanfodol:**

1. Blwyddyn o brofiad rhedeg ymgyrchoedd marchnata a chyfathrebu aml gyfrwng a mesur llwyddiant.
2. Profiad o greu a rheoli cynnwys ar draws gwefannau a phlatfformau digidol, gan gynnwys strategaethau cyfryngau cymdeithasol i dyfu ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd.
3. Profiad o gynhyrchu a chreu cynnwys creadigol addas ar ffurf lluniau, fideos, graffeg neu brint, sy'n adrodd stori ac yn cefnogi brand.
4. Profiad o weithio ar feddalwedd monitro a gwerthuso ymgyrchoedd digidol er mwyn creu adroddiadau pwrpasol.
5. Sgiliau cyfathrebu rhagorol yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan gynnwys ysgrifennu copi clir, deniadol ac addas ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd.
6. Sgiliau rhyngbersonol a'r gallu i weithio'n effeithiol fel aelod o dîm.

**Dymunol:**

1. Cymhwyster o fewn maes marchnata neu ddigidol.
2. Gwybodaeth drylwyr o dirlun diwylliannol Cymru.
3. Profiad o weithio ar system gwerthiant tocynnau neu ymgyrchoedd hyrwyddo digwyddiadau.
4. Y gallu i weithio ar eich liwt eich hun, gan flaenoriaethu gwaith  a rheoli sawl ymgyrch neu sianel gyfathrebu ar yr un pryd.
5. Profiad o ddatblygu perthnasau gyda'r cyfryngau, paratoi datganiadau i'r wasg a chydlynu ymholiadau gan newyddiadurwyr.

**Newidiadau i'r Swydd Ddisgrifiad:** Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

**Hyblygrwydd:** Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

**Adolygiad**: Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Mehefin 2026 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

**Gofynion:** Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus feddu ar drwydded yrru llawn ac yswiriant priodol sydd â sicrwydd ar gyfer defnydd busnes.

Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus berchnogi'r holl rinweddau o Egwyddorion Gweithio i'r Urdd trwy gydol eu cyflogaeth.

---

**Gwiriadau Perthnasol:** Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG).